



Agraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.

This Statutory Instrument has been printed in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 2676 (Cy.290)

2012 No. 2676 (W.290)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau
Etholiadol) 2012**

**The Isle of Anglesey (Electoral
Arrangements) Order 2012**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'n rhoi effaith i gynigion Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn"), a gyflwynodd adroddiad ym mis Mai 2012 (yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 58(3) o'r Ddeddf honno) ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ynys Môn. Roedd adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau maint Cyngor Sir Ynys Môn o 40 o gynghorwyr i 30 a gwneud newid i'r patrwm cyfredol o adrannau etholiadol sy'n cael eu cynrychioli gan aelod unigol i un lle y mae'r adrannau etholiadol yn rhai amlaelod.

This Order is made under section 58(2) of the Local Government Act 1972. It gives effect to proposals of the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission") which (following a direction from the Welsh Ministers under section 58(3) of that Act) reported in May 2012 on its review of electoral arrangements for the County of the Isle of Anglesey. The Commission's report proposed a reduction in the size of the Isle of Anglesey County Council from 40 to 30 councillors and a change to the current pattern of electoral divisions being represented by a single member to one of multi-member electoral divisions.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

This Order gives effect to the Commission's recommendations without modifications.

2012 Rhif 2676 (Cy.290)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau
Etholiadol) 2012**

Gwnaed

24 Hydref 2012

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 57(2) a 58(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1), adroddiad dyddiedig Mai 2012 ar ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol o fewn sir Ynys Môn, a'i gynigion ar gyfer eu newid(2).

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(3).

(1) 1972 p.70. Diwygiwyd adran 58 gan adran 40 o Ddeddf yr Heddlu a Llysoedd Ynadon 1994 (p.29); paragraff 11 o Atodlen 15 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19); ac adran 168 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4).

(2) Ym 1996 ac yn unol ag adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, newidiwyd enw'r sir o Sir Fôn i Sir Ynys Môn drwy benderfyniad y cyngor sir a chyda chydysyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 74(6). Diddymwyd is-adran (6) gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 2004 (p.14), Rhan 10 o Atodlen 1.

(3) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

2012 No. 2676 (W.290)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Isle of Anglesey (Electoral
Arrangements) Order 2012**

Made

24 October 2012

Coming into force in accordance with article 1(2)

The Local Government Boundary Commission for Wales has, in accordance with sections 57(2) and 58(3) of the Local Government Act 1972(1), submitted to the Welsh Ministers a report dated May 2012 on its review of, and proposals for a change in, the electoral arrangements within the county of the Isle of Anglesey(2).

The Welsh Ministers have decided to give effect to those proposals without modifications.

More than six weeks have elapsed since those proposals were submitted to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them(3).

(1) 1972 c.70. Section 58 was amended by section 40 of the Police and Magistrates' Courts Act 1994 (c.29); paragraph 11 of Schedule 15 to the Local Government (Wales) Act 1994 (c19); and section 168 of the Local Government (Wales) Measure 2011(nawm 4).

(2) In 1996 and in accordance with section 74 of the Local Government Act 1972, the name of the county was changed from Anglesey to the Isle of Anglesey by resolution of the county council and with the consent of the Secretary of State under section 74(6). Subsection (6) was repealed by the Statute Law (Repeals) Act 2004 (c.14), Part 10 of Schedule 1.

(3) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau Etholiadol) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym—

- (a) at ddibenion trafodion sy'n rhagarweiniol i etholiad cynghorwyr neu sy'n ymwneud ag etholiad o'r fath, drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn;
- (b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2013(1).

(3) Yn y Gorchymyn hwn mae i "diwrnod arferol ethol cynghorwyr" yr ystyr a roddir i "ordinary day of election for councillors" gan adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(2).

Adrannau etholiadol sir Ynys Môn

2.—(1) Mae adrannau etholiadol sir Ynys Môn wedi eu diddymu.

(2) Mae'r sir wedi ei rhannu'n un ar ddeg o adrannau etholiadol a phob un ohonynt yn dwyn enw a restrir yng ngholofn 1 y Tabl yn yr Atodlen ac mae pob un o'r adrannau etholiadol hynny wedi ei ffurfio o'r ardaloedd presennol a bennir mewn perthynas â'r adran etholiadol honno yng ngholofn 2 y Tabl.

(3) Y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol yw'r nifer a bennir mewn perthynas â'r adran etholiadol honno yng ngholofn 3 y Tabl yn yr Atodlen.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Bwrdeistref Ynys Môn-Isle of Anglesey (Trefniadau Etholiadol) 1992(3) wedi ei ddirymu.

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of this Order is The Isle of Anglesey (Electoral Arrangements) Order 2012.

(2) This Order comes into force—

- (a) for the purpose of proceedings preliminary or relating to the election of councillors, on the day following the day on which the Order is made;
- (b) for all other purposes, on the ordinary day of election of councillors in 2013(1).

(3) In this Order "ordinary day of election for councillors" ("*diwrnod arferol ethol cynghorwyr*") has the meaning given by section 37 of the Representation of the People Act 1983(2).

Electoral divisions of the county of the Isle of Anglesey

2.—(1) The electoral divisions of the county of the Isle of Anglesey are abolished.

(2) The county is divided into eleven electoral divisions each bearing a name listed in column 1 of the Table in the Schedule and each such electoral division comprises the existing areas specified in relation to that electoral division in column 2 of the Table.

(3) The number of councillors to be elected for each electoral division is the number specified in relation to that electoral division in column 3 of the Table in the Schedule.

Revocation

3. The Borough of Ynys Môn-Isle of Anglesey (Electoral Arrangements) Order 1992(3) is revoked.

(1) *Gweler* O.S. 2012/686 (Cy.94) a oedd yn darparu y byddai etholiad cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn yn cael ei gynnal yn 2013 yn lle 2012 ac y byddai etholiadau cyffredin dilynol yn cael eu cynnal bob pedair blynedd ar ôl 2013.

(2) 1983 p.2. Diwygiwyd adran 37 gan adran 18(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p.50), adran 17 o Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29) ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

(3) O.S. 1992/2923. Daeth y Gorchymyn hwn i rym ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr ym 1995 a gwnaeth ddarpariaeth ar gyfer y trefniadau etholiadol ar gyfer y prif gyngor newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru)1994. Ym 1998 ni chynigiodd adroddiad y Comisiwn ar adolygu trefniadau etholiadol sir Ynys Môn unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol; ac ni wnaed unrhyw orchymyn o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwnaethpwyd rhai newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol yn y sir gan O.S.2009/367(W.37).

(1) *See* S.I. 2012/686 (W.94) which provided that the ordinary election of councillors to the Isle of Anglesey County Council would take place in 2013 instead of 2012 and that subsequent ordinary election would take place every four years after 2013.

(2) 1983 c.2. Section 37 was amended by section 18(2) of the Representation of the People Act 1985 (c.50), section 17 of the Greater London Authority Act 1999 (c.29) and section 60 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c.28).

(3) S.I. 1992/2923. This Order came into force on the ordinary day of election of councillors in 1995 and made provision for the electoral arrangements for the new principal council established by the Local Government (Wales) Act 1994. In 1998 a report of the Commission on a review of electoral arrangements for the county of the Isle of Anglesey proposed no changes to the electoral arrangements; and no order was made under section 58(2) of the Local Government Act 1972. Some consequential changes to electoral divisions in the county were made by S.I.2009/367(W.37).

Carl Sargeant

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o
Weinidogion Cymru

24 Hydref 2012

Minister for Local Government and Communities, one
of the Welsh Ministers

24 October 2012

YR ATODLEN

SCHEDULE

Erthygl 2

Article 2

ENWAU AC ARDALOEDD ADRANNAU
ETHOLIADOL A NIFER Y CYNGHORWYRNAMES AND AREAS OF ELECTORAL
DIVISIONS AND NUMBERS OF COUNCILLORS

<i>Colofn (1)</i>	<i>Colofn (2)</i>	<i>Colofn (3)</i>
<i>Enw'r adran etholiadol</i>	<i>Ardal yr adran etholiadol</i>	<i>Nifer y cynghorwyr</i>
Aethwy	Cymunedau Llanfair Pwllgwyngyll, Porthaethwy a Phenmynydd	3
Bro Aberffraw	Cymunedau Aberffraw, Bodorgan a Rhosyr	2
Bro Rhosyr	Cymunedau Llanidan, Llanfihangel Ysgeifiog, Llanddaniel-fab a Llangristiolus	2
Caergybi	Yng Nghymuned Caergybi, wardiau'r Dref, Ffordd Llundain, Morawelon, Porthyfelin a Pharc a'r mynydd	3
Canolbarth Môn	Cymunedau Bryngwran, Bodffordd, Llangefni a Threwalchmai; ac, yng Nghymuned Llanddyfnan, wardiau Llanddyfnan, Llangwyllog a Thregaeon	3
Lliffon	Cymunedau Llanfaelog, Llanfair-yn-neubwll a'r Fali	2
Lligwy	Cymunedau Moelfre, Laneugrad, Llanfair Mathafarn Eithaf a Phentraeth; ac, yng Nghymuned Llanddyfnan, ward Llanfihangel Tre'r-beirdd	3

<i>Column (1)</i>	<i>Column (2)</i>	<i>Column (3)</i>
<i>Name of electoral division</i>	<i>Area of electoral division</i>	<i>Number of councillors</i>
Aethwy	The Communities of Llanfair Pwllgwyngyll, Menai Bridge and Penmynydd	3
Bro Aberffraw	The Communities of Aberffraw, Bodorgan and Rhosyr	2
Bro Rhosyr	The Communities of Llanidan, Llanfihangel Ysgeifiog, Llanddaniel-fab and Llangristiolus	2
Caergybi	In the Community of Holyhead, the wards of Town, London Road, Morawelon, Porthyfelin and Parc a'r mynydd	3
Canolbarth Môn	The Communities of Bryngwran, Bodffordd, Llangefni and Threwalchmai; and, in the Community of Llanddyfnan, the wards of Llanddyfnan, Llangwyllog and Thregaeon	3
Lliffon	The Communities of Llanfaelog, Llanfair-yn-neubwll and Valley	2
Lligwy	The Communities of Moelfre, Laneugrad, Llanfair-Mathafarn-Eithaf and Pentraeth; and, in the Community of Llanddyfnan, the ward of Llanfihangel Tre'r-beirdd	3

Seiriol	Cymunedau Biwmares, Cwm Cadnant, Llanddona a Llangoed	3
Talybolion	Cymunedau Bodedern, Cylch-y-garn, Llannerch-y-medd, Llanfachreth, Llanfaethlu, Mechell a Thref Alaw	3
Twrcelyn	Cymunedau Amlwch, Llanbadrig, Llaneilian a Rhos-y-bol	3
Ynys Gybi	Cymunedau Trearddur a Rhoscolyn; ac yng Nghymuned Caergybi, wardiau Maeshyfyd a Kingsland	3

Seiriol	The Communities of Beaumaris, Cwm Cadnant, Llanddona and Llangoed	3
Talybolion	The Communities of Bodedern, Cylch-y-garn, Llannerch-y-medd, Llanfachreth, Llanfaethlu, Mechell and Tref Alaw	3
Twrcelyn	The Communities of Amlwch, Llanbadrig, Llaneilian and Rhosybol	3
Ynys Gybi	The Communities of Trearddur and Rhoscolyn; and, in the Community of Holyhead, the wards of Maeshyfyd and Kingsland	3

© Hawlfraint y Goron 2013
Ail-gyhoeddiad Cywiriedig

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013
Corrected Reprint

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 2676 (Cy.290)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Ynys Môn (Trefniadau
Etholiadol) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 2676 (W.290)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Isle of Anglesey (Electoral
Arrangements) Order 2012